



Adroddiad ar Ymgynghoriad y Bont-faen

Gorffennaf 2022

1. Cefndir

Mae Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig (2011-2026) Bro Morgannwg wedi dyrannu tir yn y Bont-faen ar gyfer adeiladu 646 o dai newydd ar draws pedwar safle, gan gynnwys tir i'r gogledd ac i'r gorllewin o Darren Close, y Bont-faen.

Mae caniatâd cynllunio llawn wedi'i gael i adeiladu 475 o dai i'r gogledd ac i'r gorllewin o Darren Close ac mae'r tai hynny'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Yn rhan o'r caniatâd cynllunio ar gyfer y safle hwnnw, mae'r Cyngor wedi sicrhau cyfraniadau Adran 106 oddi ar y safle ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd/gwell, a thrafnidiaeth gynaliadwy drwy gytundeb Adran 106.

Ym mis Hydref 2020, cynhaliwyd ymgynghoriad gan Gyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan i gael syniadau gan y gymuned leol drwy holiadur ar gyfer prosiectau yn y dyfodol i wario'r arian hwn arnynt. Nododd y canlyniadau fod cyfleusterau ieuencid yn flaenoriaeth uchel yn y Bont-faen, yn ogystal â buddsoddiad mewn cerdded a beicio.



Consultation report
draft 1 12 Nov 2020.p

Felly mae Cyngor Bro Morgannwg yn edrych ar gyfleoedd posibl yn ward y Bont-faen.

Ardal o gyfle yw'r lle adfeiliedig o dan ffordd osgoi'r A48, sydd gyferbyn â'r droedffordd/beicffordd o Ysgol Gyfun y Bont-faen i faes parcio Neuadd Tref y Bont-faen. Mae hwn eisoes yn llwybr poblogaidd i fyfyrwyr Ysgol Gyfun y Bont-faen, gan eu bod yn cerdded i'r ysgol ac ohono o ganol tref y Bont-faen. Mae hefyd yn llwybr poblogaidd i drigolion gael mynediad i'r rhwydwaith hawl dramwy cyhoeddus i'r gogledd.

Mae'r lle o dan ffordd osgoi'r A48 wedi cael ei ddefnyddio'n anffurfiol gan fyfyrwyr y chweched dosbarth yn ardal barcio. Fodd bynnag, mae hyn ar fin newid. Caiff y ffordd sy'n mynd at yr ardal dan y ffordd osgoi ei chyfyngu, gyda mynediad dim ond i'r bobl sydd ei angen e.e. cadetiaid awyr, cwmnïau nwy/dŵr/trydan a phobl â rhandiroedd. Bydd angen i fyfyrwyr y chweched dosbarth barcio yn y maes parcio i'r gogledd o Ysgol Gyfun y Bont-faen.

Mae ysgol gynradd Saesneg newydd wedi cael ei chymeradwyo yn ddiweddar ar dir Ysgol Gyfun y Bont-faen (gweler y cyfeirnod cynllunio 2021/01537/RG3). Rhagwelir felly y bydd disgyblion iau a disgyblion a allai fod yn fwy agored i niwed, ynghyd â'u rhieni, yn defnyddio'r droedffordd/beicffordd ger y lle hwn yn y dyfodol i gerdded/beicio/sgwtio i'r ysgol - yn ogystal â'r disgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Gyfun y Bont-faen.


Mae pryderon wedi eu mynegi am y lle hwn (sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol). O ganlyniad, mae'r lle hwn yn gyfle i ddatblygu rhywbeth ffurfiol ar gyfer cyfleusterau ieuencid i geisio 'gyrru allan' ymddygiad o'r fath.

Cynhaliwyd sesiwn gweithdy i randdeiliaid ar 2 Mawrth 2022, wedi'i hwyluso gan ARUP. Aeth Cynghorwyr Ward y Bont-faen Bro Morgannwg, Cynghorwyr Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan, cynrychiolydd Ysgol Gyfun y Bont-faen, adrannau mewnol Bro Morgannwg – Priffyrdd, Diogelwch ar y Ffyrdd, Teithio Llesol, Cynllunio, Addysg, Diogelwch Cymunedol i'r sesiwn hon.

Yn ystod y cyfarfod hwn, cytunodd pawb oedd yn bresennol bod angen ystyried opsiynau ar gyfer y lle hwn, er mwyn atal a "gyrru allan" ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra hefyd yn creu lle a fydd yn parhau i annog plant i gerdded/beicio i'r ysgol. Roedd angen ymgysylltu pellach.

2. Methodoleg

Yn dilyn y sesiwn i randdeiliaid, datblygodd ARUP gyfres o gynigion lefel uchel ar gyfer y lle yn opsiynau i ymgynghori arnynt ymhellach.



Roedd ymgynghoriad yn agored i drigolion rhwng 28 Mehefin a 20 Gorffennaf 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn seiliedig yn bennaf ar arolwg "Commonplace", oedd yn ceisio canfod dyheadau'r gymuned yn y dyfodol am y lle o dan ffordd osgoi'r A48, gan ddefnyddio'r delweddau i ysgogi adborth. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo ar wefan y Cyngor, ar sianeli cyfryngau cymdeithasol ac ar bosteri o amgylch y dref.

3. Ymatebion i'r Arolwg

Roedd 89 o ymatebion i'r arolwg.

3.1 Syniadau wedi'u hawgrymu

Yn rhan o'r arolwg, roedd angen i'r ymatebwyr ddewis ymhlith 12 o gynigion a awgrymwyd. Gallai'r ymatebwyr gefnogi cymaint o'r cynigion ag y dymunent.

| Awgrym | Y % a gefnogodd y cynnig |
|---|--------------------------|
| 1. Cyfnewid llysiau - gall bobl rannu eu cynnyrch eu hunain | 10% |
| 2. Lle bach i unigolion weithredu e.e. gall fan trwsio beiciau ddod â gweithgaredd i le | 10% |
| 3. Ardal hyblyg sy'n ysgogi rhyngweithio i gryfhau cysylltiadau ac i helpu atal ymddygiad gwrthgymdeithasol | 12% |
| 4. Lle deniadol i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol | 31% |
| 5. Lle i greadigrwydd a chelfyddydau | 18% |
| 6. Sinema dros dro | 13% |
| 7. Lle perfformio | 7% |
| 8. Trac Pwmpio | 28% |
| 9. Wal Tennis | 15% |
| 10. Cylch Pêl-fasged | 21% |
| 11. Wal Ffitrwydd | 29% |
| 12. Wal Ddringo | 36% |

Yr

awgrymiadau a gefnogwyd fwyaf oedd wal ddringo, lle deniadol i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, trac pwmpio a wal ffitrwydd.

Dim ond 4 allan o'r 89 na ddewisodd unrhyw un o'r opsiynau.

3.2 Syniadau a Sylwadau Eraill

Roedd cyfle hefyd i wneud awgrymiadau a sylwadau. Roedd yr awgrymiadau a'r sylwadau yn cynnwys:

"Cyfleuster i blant yn eu harddegau.... mae'r ramp sglefrfyreddio ger y ganolfan hamdden yn ofnadwy..... byddai'n braf iddyn nhw gael rhywle diddorol a diogel i gymdeithasu, rhywle iddyn nhw eu hunain. Cyfleuster arall i hen bobl yw'r peth olaf sydd ei angen arnom yn y Bont-faen, gadewch i ni wneud rhywbeth i'r ieuencid a chreu lle iddyn nhw maen nhw'n ei haeddu."

"Pwll nofio"

"Mae gwir angen glanhau'r ardal hon a'i gwneud yn ddiogel ac yn ddeniadol i ddefnyddwyr."

"Parc sglefrio/sgwtio gydag ardal redeg rhydd gydag offer gweddus i bob gallu"

"Plannwch flodau gwyllt deniadol ar ochr y llwybr rhwng y maes parcio y tu ôl i neuadd y dref a'r ffordd osgoi. Mae dirfawr angen tacluso hyn a gallai fod cymaint yn fwy apelgar. Hefyd, mae angen llawer mwy o finiau sbwriel."

"Ardal chwaraeon amldefnydd tebyg i Lanbedr-y-fro"

"Byddai trac sglefrfyrdio yn anhygoel . Ewch lawr i weld parc bae Caerdydd. Gwyliwch blant 3 oed ar geir bach, plant cynradd a phobl ifanc yn eu harddegau i gyd yn defnyddio'r un lle. Roedd rhaid i bawb ddangos parch. Lle cyffredin gwych ar gyfer ystod o oedrannau."

"Mae angen rhywbeth yma i wella'r ardal hon. Nid yw cerdded drwy'r ardal hon gyda phlant ifanc yn ddymunol ac mae'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar gyfer plant bach, felly mae'n rhaid i ni ei gwneud hi'n fwy disglair/gwyrdd/deniadol a hwyl iddyn nhw fod eisiau cerdded i'r ysgol drwyddi. Cewch gwynion gan drigolion lleol mae'n siŵr ond plis gwrandewch ar y mwyafrif yn hytrach na'r lleiafrif. Ar hyn o bryd mae'r ardal hon yn annog disgyblion Ysgol Gyfun y Bont-faen ac eraill i ymgynnull ac rydyn ni'n gwybod eu bod yn gwneud pethau na ddylen nhw fod - o leia' mae angen rhyw fath o deledu cylch cyfyng a dylid stopio parcio."

"Byddai'n lleoliad da ar gyfer pwll nofio i'r gymuned. Digon agos i holl ysgolion y Bont-faen ei ddefnyddio hefyd."

"Teledu cylch cyfyng i stopio pobl sy'n cymryd cyffuriau a fandaliaeth ac ymddygiad mob."

"I leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal byddwn yn awgrymu estyn yr ardal rhandiroedd, gan efallai ddefnyddio gwelyau wedi'u codi neu droi'r ardal gyfan yn ardal gollwng/maes parcio ar gyfer y cynnydd mewn traffig fydd yn deillio o ddatblygu'r ysgol lau newydd."

"Rwyf wedi gweld wal ddringo wych wedi'i sefydlu yn y Swistir sydd wedi defnyddio waliau concrit pont/trosffordd. Byddai wal ddringo/dringo meini mawr syml hefyd yn dda. Ond byddai'n wych pe gallai hyfforddwyr dringo sydd wedi'u hyfforddi'n iawn ddefnyddio wal fwy/uwch. Byddai'r grŵp sgowntiaid yn sicr yn defnyddio hyn, yn ogystal ag eraill."

Mynegwyd pryderon hefyd, fel a ganlyn:

"Syniadau da iawn ond mae anfanteision:..sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn hwyr yn y nos, ble fydd yr holl geir sy'n cael eu defnyddio gan fyfyrwyr ysgol yn mynd? Rhaid bod lleoedd parcio pwrpasol ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth sydd â cheir. Rhaid sicrhau teledu cylch cyfyng os bydd y cynllun hwn yn mynd yn ei flaen."

"Mae gen i gwpl o bryderon fel preswlydd ar gyfer parc Millfield. Rydym eisoes yn cael problemau gyda phlant yn ceisio cicio giât i mewn a thafllu sbwriel i'n gardd. Byddai hyn yn dod â mwy o ieuencid i'n hardal gan achosi aflonyddwch. Fy mhrif bryder yw'r syniad o greu rhywbeth o dan ffordd osgoi. Beth petai rhywbeth yn digwydd byddai'n malu'r rheiny oddi tani."

"Mae angen camerâu a goleuadau yn yr ardal hon er mwyn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a delio cyffuriau ac mae angen mesurau arafu traffig ar y lôn fynediad o'r brif ffordd er mwyn atal y myfyrwyr sydd wedi bod yn gyrru'n rhy gyflym ar y lôn. Pe bai maes parcio'r ysgol yn cael ei ddefnyddio fel y'i cynlluniwyd, gallai'r myfyrwyr barcio yno."

"Mae'r ddelwedd rydych chi wedi'i darparu yn edrych yn wych. Y broblem yw bod yr ardal wedi'i hynysu gyda'r nos pan allai myfyrwyr orfod cerdded yno ar eu pennau hunain ar ôl clybiau ysgol ac ati, felly mae goleuadau da yn bwysig iawn. Dwi hefyd yn cytuno bod diffyg parcio i fyfyrwyr y chweched dosbarth a diffyg man gollwng i rieni ar gyfer yr ysgol uwchradd yn broblem fawr sydd angen datrys o bosib lle mae'r hen ysgol i ferched ar hyn o bryd. Mae'r brif ffordd, Aberthin Road, yn beryglus iawn i'r plant sy'n cerdded i'r ysgol o'r Bont-faen gyda bysus a lorïau'n mynd ar y palmant a gyrru ar ei hyd bob dydd. Mae angen bolardiau o leiaf. Diolch am eich cynigion cadarnhaol"

"Bydd creu parc sglefrfyreddio neu unrhyw beth tebyg, heb amheuaeth yn arwain at fwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Mae parc sglefrfyreddio eisoes yn bodoli yn BEAR FIELD yn Y BONT-FAEN. Mae eisoes yn Y BONT-FAEN nifer o amwynderau na chânt eu defnyddio digon gan gynnwys CANOLFAN HAMDDEN Y BONT-FAEN yn ogystal â chlybiau Rygbi, Pêl-droed a Thennis. Mae pellter y lleoliad yn denu gweithgareddau annymunol ac er y byddai teledu cylch cyfyng yn cynorthwyo gyda lleihau'r gweithgareddau hyn, pwy fydd yn talu am y teledu cylch cyfyng, ond yn bwysicach pwy fydd yn ei gynnal a'i gadw a phwy fydd yn gyfrifol am ei ddefnyddio."

"Mae gennym lawer i'r ieuencid ei wneud eisoes gydag ychydig iawn o ohonynt yn manteisio arno."

4. Ymgynghoriad Eraill

Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan:

"Yng nghyfarfod Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan ar 19 Gorffennaf 2022, cytunwyd ar yr ymateb canlynol i'r Ymgynghoriad Teithio Llesol ac A106:

Mae Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan yn falch o weld syniadau yn cael eu cyflwyno i'r ymgynghoriad ar gyfer yr ardal dan y ffordd osgoi. Mae'r Cyngor Tref yn cytuno gyda'r cysyniad o ddefnyddio'r ardal er lles pobl ifanc. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod bod gan drigolion lleol bryderon dilys am sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Beth bynnag a wneir yn y pen draw yn yr ardal hon byddai angen ei reoli'n dda, ei gynnal a'i gadw'n dda a'i oleuo'n dda. Mae'n siomedig mai dim ond 87 o ymatebion sydd wedi bod i'r rhan hon o'r ymgynghoriad. Ym marn y Cyngor

Tref, cyn gwneud unrhyw benderfyniad, mae angen llawer mwy o ymgynghori yn enwedig gyda phobl ifanc. Mae'r Cyngor Tref yn awgrymu cyflwyniadau galw heibio yn Neuadd y Dref a hefyd yn yr ysgolion lleol. Gallai un o'r rhain fod yn y boreau coffi a galw heibio rheolaidd a gynhelir gan y Cyngor Tref yn Neuadd y Dref ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis.

Un pryder difrifol yw bod y darluniau cyn ac ar ôl yn dangos yr ardal o flaen y giatiau'n unig yn cael ei defnyddio. Ym marn y Cyngor Tref mae'n hanfodol defnyddio'r ardal gyfan. Os nad yw'r ardal y tu hwnt i'r giatiau yn cael ei hymgorffori yn y cynllun yna bydd yn siŵr o greu problemau gwaeth fyth o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, delio cyffuriau ac ati."

Mae Heddlu De Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol a chymhelliant ychwanegol offer newydd.

5. Casgliadau ac Argymhellion

Nododd yr ymgynghoriad fod yr ymatebwyr am i'r lle o dan ffordd osgoi'r A48 gael ei wella, gyda dros 95% yn dewis un o'r opsiynau a awgrymwyd.

Fodd bynnag, cafwyd barn gymysg iawn yn yr adran adborth a'r sylwadau o ran beth allai'r gwelliannau fod, gyda nifer o sylwadau eisiau cyfleusterau ffurfiol sy'n seiliedig ar weithgareddau, ond eto eraill yn mynegi pryderon ynghylch Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Argymhellir ymgynghori ymhellach gyda thrigolion, pobl ifanc, yn enwedig yr ysgolion lleol (Ysgol Gyfun y Bont-faen, yr ysgol gynradd newydd a'r ysgolion cynradd presennol), a phartïon eraill sydd â diddordeb, i ddechrau edrych ar yr opsiynau yn fwy manwl.